Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 26 Mehefin 2019 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M Sherwood (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C R Doyle | D W Helliwell | P K Jones |
| L R Jones | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Amy Hawkins | Tackling Poverty Service Manager |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |
| Lyndsay Thomas | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): E T Kirchner, H M Morris, D Phillips, C Richards a/ac G J Tanner

---

**5 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

**6 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi a gynhaliwyd ar 24 Ebrill a 9 Mai 2019 fel cofnod cywir.

**7 Cylch Gorchwyl. (Er gwybodaeth)**

Adroddwyd am Gylch Gorchwyl y pwyllgor ‘er gwybodaeth’.

**8 Cynllun Gwaith 2019-2020. (Drafodaeth)**

Amlinellodd y Cadeirydd y pynciau arfaethedig i'r Pwyllgor eu hystyried yn ystod Blwyddyn Ddinesig 2019-2020 a dosbarthodd Gynllun Gwaith Drafft i'w drafod. Yna cafwyd trafodaethau manwl ynghylch y Cynllun Gwaith a oedd yn cynnwys -

- Cyfathrebiadau - Gofynnodd y Cadeirydd os gellir sefydlu Grŵp ar Microsoft Teams er mwyn rhannu gwybodaeth ynghylch y Pwyllgor, yn enwedig yr holl

llythyron i'r Cabinet a'r cyflwyniadau a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn ddinesig flaenorol.

- Comisiwn Gwirionedd Tlodi

  Derbyniwyd cais i gynnwys y pwnc hwn fel eitem sefydlog wrth symud ymlaen yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet i roi'r camau nesaf ar waith. Trefnwyd cyfarfod sefydlu grŵp ar gyfer 17 Gorffennaf 2019.

- Benthyca llog uchel

  Cynigiodd y cadeirydd i drosglwyddo'r Cynllun Gweithredu presennol i bolisi drafft, i'w drafod yn y cyfarfod nesaf a drefnir. Trafodwyd hyfforddiant staff ynghylch y pwnc hefyd.

- Tlodi bwyd

  Dosbarthwyd manylion am dlodi bwyd: newyn ac ansicrwydd bwyd. Soniodd y Cadeirydd am unigolion sy'n gymwys am brydiau ysgol am ddim sydd ddim yn eu hawlio, rôl yr awdurdod/3ydd Sector o ran darparu cefnogaeth, gwasanaeth a ddarparwyd gan Fareshare Cymru, gweithgor trawsbleidiol y Cynulliad yn ystyried argymhellion ar gyfer cynghorau lleol.

- Cynyddu Isadeiledd Gwyrdd mewn cymdogaethau difreintiedig.

  Cynigiodd y Cadeirydd y dylid gwahodd Andrew Davies, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, i gael ei gyfethol ar y Pwyllgor ar gyfer y pwnc hwn yn unig/gweddill y flwyddyn ddinesig. Ychwanegodd fod cysylltiad clir rhwng anghydraddoldebau iechyd a diffyg mannau/isadeiledd gwyrdd. Cynigwyd hefyd y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru/GIG ddarparu cyflwyniadau ar anghydraddoldebau iechyd. Trafododd y Pwyllgor gyfranogaeth y gymuned mewn cynlluniau/prosiectau a gwaith y sefydliadau 'cyfeillion'

- Hawlio Budd-dal

  Trafododd y Pwyllgor Gyfarwyddeb Taliadau'r UE (2014 /92/EU)/banciau'n gwrthod unigolion rhag agor cyfrifon banc, unigolion nad ydynt yn hawlio eu hawliadau oherwydd cywilydd, gwiriadau ariannol a wnaed gan y cyngor, anelu am hyfforddiant staff gorfodol ar y pwnc, achrediad cyflog byw,

- Llythyron i Hawlwyr budd-daliadau

  Amlygodd y Pwyllgor y defnydd o jargon, newid yr eirfa er mwyn galluogi'r derbynnydd i ddeall/lleihau'r neges a gaiff ei chyflwyno, gan dargedu Treth y Cyngor/llythyron Budd-daliadau Tai, gan ddefnyddio enghreifftiau o sefydliadau eraill a sut y mae eraill, e.e. CThEM wedi gwneud arbedion trwy symleiddio eu gohebiaeth.

**Penderfynwyd** ar y canlynol: -

1) Bydd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu Grŵp Microsoft Teams ac yn rhannu'r holl lythyron/cyflwyniadau a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn ddinesig flaenorol;
2) Cynnwys y Comisiwn Gwirionedd Tlodi fel eitem sefydlog ar agendâu'r dyfodol;
3) Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at Gadeirydd Gweithgor trawsbleidiol y Cynulliad am fwy o wybodaeth ynghylch eu cynigion ar dlodi bwyd;
4) Trafod tlodi bwyd yn y cyfarfod nesaf a drefnir;
5) Trafod enghreifftiau o lythyrau yn y cyfarfod a drefnir ar gyfer 25 Medi 2019;
6) Gwahodd Andrew Davies, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, i'r pwyllgor ar gyfer y pwnc hwn yn unig/gweddill y flwyddyn ddinesig;
7) Gwahodd GIG/Cyfoeth Naturiol Cymru i ddarparu cyflwyniadau ar anghydraddoldebau iechyd yn y cyfarfod nesaf a drefnir/cyfarfod yn y dyfodol;
8) Cynnwys adborth o'r Fforwm Tlodi mewnol fel eitem sefydlog ar agendâu'r dyfodol;
9) Ychwanegu Polisi Cyflog Byw drafft i'r Cynllun Gwaith;
10) Bydd y Prif Gyfreithiwr yn darparu adborth i'r Cadeirydd ynghylch Cyfarwyddeb Taliadau'r UE (014/92/EU).

Daeth y cyfarfod I ben am 5.40 pm

**Cadeirydd**